

Hawliau Plant yng Nghymru



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Hawliau Plant yng Nghymru Hydref '18

Cyflwyniad

Mae ychydig dros 550,000 o blant 0 -15 oed yn byw yng Nghymru, ac mae 350,000 arall rhwng 16 a 24 oed.¹

Gan mai fi yw Comisiynydd Plant Cymru, fy rôl i yw hybu a diogelu hawliau a lles plant hyd at 18 oed, neu 25 oed o dan rai amgylchiadau. Fy ngweledigaeth i yw bod holl blant Cymru yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. Elfen ganolog i'm holl waith yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), cytundeb rhyngwladol sy'n rhestru'r hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc. Yn 2011, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfraith ynghylch hawliau plant — mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), sy'n gofyn bod Gweinidogion Cymru yn sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith ar blant wrth lunio polisiau a Biliau.

Bob tair blynedd rwy'n cyhoeddi cynllun 3 blynedd, yn amlinellu beth bydda i a'm fim o 23 yn gweithio arno i wella cyfleoedd bywyd plant yng Nghymru. Mae'n bwysig i mi bod y cynllun hwnnw'n cymryd i ystyriaeth beth rydyn ni'n ei wybod ar hyn o bryd am fywydau plant a phobl ifanc ac i ba raddau mae eu hawliau'n cael eu gwireddu yma yng Nghymru.

Mae fy arolwg 'Beth Nawr | What Now?' yn rhan bwysig o'r gwaith hwnnw, ac o fis Hydref 2018 bydda i'n holi plant a phobl ifanc am y materion sy'n bwysig iddyn nhw, sut maen nhw'n meddwl gallen ni fynd i'r afael â rhai ohonyn nhw, ac ar beth maen nhw'n meddwl dylwn i ganolbwyntio yn fy ngwaith fel Comisiynydd

¹ StatsWales.2018. National level population estimates by year, age and UK country Mid-Year 2017. Ar gael yn <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and->

iddyn nhw. Bydda i hefyd yn gofyn barn oedolion sy'n gofalu am blant a phobl ifanc ac yn eu cefnogi.

Eleni, i helpu i lywio cynnwys yr arolwg a chyfrannu at sicrhau darlun ehangach o fywydau plant yng Nghymru, roeddwn i am gymryd i ystyriaeth yr wybodaeth genedlaethol sydd eisoes yn cael ei chasglu am blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys data meintioliol a gwybodaeth ansoddol y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflwyno eu hunain. Fe wnes i gomisiynu'r Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd i wneud y gwaith hwn. Cafwyd adroddiad helaeth o ganlyniad i hynny, ac mae i'w weld ar ein gwefan, o dan 'Cyhoeddiadau'.

Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu hyd yma o'r adroddiad, a sut rwy'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth i lywio fy nghynllun nesaf tair blynedd ar gyfer 2019 — 2021.

Crynodeb gweithredol a sylwadau

Mae'r nodyn briffio hwn yn crynhoi prif bwyntiau'r adolygiad o dystiolaeth "Hawliau Dynol Plant yng Nghymru" ac yn cyflwyno sylwadau ar arwyddocâd hynny o ran cyflwr presennol hawliau plant, gan gynnwys y rhagolygon at y dyfodol. O dan bob adran

[Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-age-ukcountry](#)



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

ceir dadansoddiad, er mwyn gweld a yw'r rhagolygon i blant yn sefydlog neu'n gwella neu'n gwaethygu yng Nghymru.

Mae'r adolygiad o dystiolaeth yn dangos bod rhai agweddau ar fywydau plant yng Nghymru yn gwella, gan gynnwys meysydd iechyd fel lefel is o farwoldeb babanod, gwell iechyd deintyddol, llai o smygu ac yfed, a chyfraddau llawer is o feichiogrwydd yn yr arddegau.

Mae meysydd eraill yn dal yn destun pryder, gan gynnwys cyfraddau cyson uchel o dlodi plant, cyfraddau uchel sy'n codi o blant sy'n derbyn gofal a bylchau sy'n parhau o ran canlyniadau gwahanol grwpiau cymdeithasol.

Mae newid profiadau a rhagolygon plant yn galw am weithredu ar sawl lefel. Er y byddai rhai newidiadau cyfreithiol o fudd, mae angen sicrhau bod deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yn cael ei defnyddio'n gywir, targedu buddsoddiadau, a sicrhau gwell dealltwriaeth o hawliau plant ledled Cymru, gan gynnwys eu hawl i fod yn rhan o benderfyniadau.

At ei gilydd, mae rhai pethau yn ymwneud â hawliau plant sy'n bendant yn gadarnhaol yn y gyfraith ac ym maes polisi, gan gynnwys ymrwymiad cadarn i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn dileu amddiffyniad 'cosb resymol' a chynnwys Dyletswydd Sylw Dyledus i hawliau plant mewn dwy Ddeddf bwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf ADY"), sy'n ymgorffori CCUHP ymhellach i gyfraith Cymru yn dilyn Mesur Hawliau Plant a Phobl (Cymru) 2011. Mae sefydlu'r Senedd Ieuencid, a fydd yn ymgynnull am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2019, ac ymrwymadau newydd i roi pleidlais yn 16 oed mewn etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad hefyd yn gamau pwysig ymlaen i gynnwys pobl ifanc yn ddemocratiaidd. Ar ben hynny, Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig lle mae dyletswydd ar awdurdodau leol i ddarparu ar gyfer hawliau plant i chwarae.

Enillion pellach o ran hawliau plant ym maes y gyfraith a pholisi, sydd heb eu gweld eto, fyddai dyletswydd ar bob corff cyhoeddus a gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i roi sylw dyledus i hawliau plant, ymgorffori CCUHP yn llawn i'r gyfraith yng Nghymru, strategaeth drosfwaol i blant gan y llywodraeth, a mwy o dryloywder yng nghyswllt dyraniadau cyllideb i blant. Mae cyfle gwirioneddol i gynyddu gwybodaeth plant am eu hawliau a'u profiad ohonynt yn y cwricwlwm newydd o 2022 ymlaen, trwy sicrhau bod y cwricwlwm hwnnw'n un sydd wedi'i seilio ar hawliau plant, ac yn ymgorffori dysgu ynghylch yr hawliau hynny.

Gwahanol brofiadau a rhagolygon plant o wahanol grwpiau cymdeithasol

Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau niferus o ganlyniadau gwahanol i blant mewn meysydd fel iechyd a llesiant a chyrhaeddiad addysgol, yn arbennig os ydynt o gefndir sosio-economaidd llai breintiedig. Mae gan blant sy'n dod o ardaloedd sydd â lefel uwch o amddifadedd sosio-economaidd gyfraddau uwch o farwoldeb babanod, llygredd aer yn eu hardaloedd lleol, gwahardd o'r ysgol, pydredd dannedd a gordewdra. Mae ganddynt hefyd lefelau is o gyrhaeddiad addysgol ym mhob Cynnod Allweddol, fel sydd gan blant sy'n derbyn gofal a phlant o gefndir Sipsiwn a Theithwyr.

Rhagolygon: testun pryder

Mae anghydraddoldebau incwm parhaus yn dal yn ffactor gwaelodol pwysig sy'n gysylltiedig â phrofiadau a chanlyniadau gwahanol i blant. Er bod nifer o fentrau eang i leihau anghydraddoldebau ym myd addysg, a bod canlyniadau addysgol pob grŵp wedi gwella, mae'r bwlch rhwng y gwahanol grwpiau yn dal i fodoli.

Camwahaniaethu uniongyrchol a bwlio

Mae plant a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd yn sôn am lefelau uchel o iaith a bwlio hiliol, rhywiaethol, homoffobig a thrawsffobig mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid oes data monitro swyddogol ar y mater hwn. Mae hefyd fwch mawr o ran tystiolaeth ynghylch profiadau plant anabl o fwlio.

Rhagolygon: Cymysg

Mae canllawiau newydd ar atal a thacio bwlio mewn ysgolion i ddod, ond ar hyn o bryd nid oes rhwymedigaeth ar ysgolion i gofnodion achosion o fwlio yn yr ysgol os ydynt yn gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig rhywun (e.e. rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, anabledd neu grefydd). Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar lefel ysgol, ni all lywio gwaith ysgolion i werthuso a gwella'u dulliau o ymdrin â chamwahaniaethu uniongyrchol a bwlio. Mae ymrwymiad newydd y llywodraeth i ddatblygu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant yn cynnwys posibiladau o ran ymgorffori mesurau gwrthfwlio cryfach.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cyfranogiad

Mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod llawer o blant yn credu nad oes neb yn gwrandao ar eu barn, ac nad yw eu barn yn gwneud gwahaniaeth i bolisi yng Nghymru ar lefel genedlaethol, ysgol na chymunedol. Mae effaith bosibl Brexit, a rhwystredigaeth ymhlith pobl ifanc o dan 18 oed oherwydd eu bod heb gael cyfle i bleidleisio ar y mater pwysig hwn, wedi dod i'r amlwg mewn peth gwaith ymchwil yng Nghymru.

Rhagolygon: cyfle i wella

Rhaid bod gan bob ysgol yng Nghymru gyngor ysgol, ac mae fforwm ieuencid gan bob awdurdod lleol. Mae peth tystiolaeth bod effeithiolrwydd y rhain yn amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru, ac mae angen gwell dealltwriaeth o ran sut mae sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo eu bod nhw'n gallu lleisio barn yn eu hysgol a'u cymuned. Mae'r Comisiynydd Plant yn gweithio gyda nifer o gyrff cyhoeddus mawr i roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, fel bod plant yn cael eu cynnwys yn fwy systematig yn eu gwaith. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bod dinasyddion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau lleol ac mae cyfle da i gynnwys plant a phobl ifanc trwy'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r Comisiynydd Plant a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi pecyn offer i helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrrff cyhoeddus eraill i gynnwys plant fel dinasyddion. Mae'r Senedd Ieuencid, a fydd yn rhan o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhywbeth cadarnhaol sydd i ddod, a bydd etholiadau'n cael eu cynnal yn hydref 2018, gydag ymrwymiad i ostwng oed pleidleisio i 16. Mae Deddf ADY hefyd yn galw am fwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Iechyd a Llesiant

Gwelwyd gwelliant ar draws nifer o ddangosyddion iechyd yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf, gan gynnwys cyfraddau marwoldeb plant a babanod, iechyd deintyddol ac ystadegau damweiniau, er mai ymhlith y rhai sy'n dod o'r ardaloedd lle ceir yr amddifadedd sosio-economaidd uchaf y ceir y canlyniadau gwaethaf o hyd. Mae ymddygiad afiach ymhlith ardddegwyr wedi lleihau, gyda chyfraddau smygu, yfed a beichiogi yn yr ardddegau yn gostwng yn sylweddol yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.

Fodd bynnag, y rhai oedd yn dod o ranbarthau mwyaf difreintiedig o Gymru oedd y rhai lleiaf tebygol o sôn eu

bod yn bwyta ffrwythau a llysiau. Roeddent hefyd gryn dipyn yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew. Roedd y cyfraddau smygu ac yfed alcohol yn gymaradwy yng Nghymru a Lloegr. Roedd merched yng Nghymru yn llai tebygol o fod yn gorfforol actif na merched yn Lloegr, ond roedd lefel gweithgarwch corfforol y bechgyn yn debyg yn y ddwy wlad.

Ar sail data'r arolwg, amcangyfrif amlygrwydd salwch meddwl ymhlith plant yng Nghymru yw 11.6 y cant, ac mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn dal yn uchel. Mae peth tystiolaeth bod defnydd plant o'r cyfryngau cymdeithasol yn cael effaith ar eu cwsig, eu gallu i ganolbwyntio yn yr ysgol a'u lefelau llesiant cyffredinol.

Rhagolygon: cymysg

Gwelwyd rhai o'r tueddiadau mwyaf cadarnhaol ym mywydau plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â iechyd, fel mae'r adroddiad hwn yn dangos. Serch hynny, y mae yna dueddiadau sy'n peri pryder mewn perthynas â gordewdra a bwyta ffrwythau a llysiau, gan fod plant yng Nghymru yn fwy tebygol o fod dros bwysau na phlant yn Lloegr.

Mae'n bosibl y bydd yr hwb a roddir i iechyd a llesiant yn y cwricwlwm newydd i ysgolion o 2022 ymlaen, ynghyd â chyhoeddiad diweddar y Llywodraeth am Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd ynghylch dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer ymdrin â iechyd a llesiant yng Nghymru, yn helpu gyda hyn ar lefel ataliol.

Tlodi a digartrefedd

Dengys y ffigurau swyddogol fod 28 y cant o blant Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Er bod hyn wedi gostwng rhywfaint o'r blynyddoedd blaenorol rhagwelir y bydd cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru yn cynyddu tua 8 y cant erbyn 2022 oherwydd y newidiadau treth a budd-dal sy'n cael eu gweithredu ledled y Deyrnas Unedig.

Mae cyfran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant wedi gostwng rhwng 2005/6 a 2014/15. Fodd bynnag, mae cryn nifer ohonynt o hyd yng Nghymru, ac yn 2017/18 roedd 882 o aelwydydd o'r fath.

Rhagolygon: testun pryder

Oni bai bod newidiadau'n cael eu gwneud i reolau cymhwyster a'r dull o weithredu Credyd Cynhwysol, mae rhagolygon tlodi plant yng Nghymru yn debygol iawn o waethygu. Er bod Llywodraeth Cymru a'r



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

awdurdodau lleol yn cael eu cyfyngu gan eu setliad ariannol cyffredinol, gallant liniaru effaith tlodi plant trwy fesurau fel grantiau uniongyrchol i deuluoedd, darpariaeth prydau ysgol am ddim, a darpariaeth gwasanaethau cymorth. Mae'n ofynnol bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant bob tair blynedd. Cyhoeddwyd y strategaeth ddiweddaraf yn 2015, ac ar hyn o bryd nid oes cynllun gweithredu trosfwaol ar gyfer tlodi plant. Rhoddwyd y targed o ddileu tlodi plant o'r neilltu yn 2016.

Credir bod Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cyfrannu at atal digartrefedd teuluoedd â phlant a grwpiau eraill cymwys, ac mae hwn yn fframwaith cadarnhaol, unigryw i Gymru, y dylid ei gydnabod. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu'r ffigurau'n uniongyrchol â data a gasglwyd cyn i'r Ddeddf honno gael ei chyflwyno, a bydd angen cadw llygad manwl ar y darlun sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru.

Addysg

Mae bylchau cyrhaeddiad pwysig ar draws y Cyfnodau Allweddol i blant sy'n cael gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, plant sydd mewn ardaloedd sosio-economaidd difreintiedig, a phlant o gefndir Sipsiwn neu Sipsiwn Roma. Mae arolygon wedi canfod, er bod lefelau cyrhaeddiad merched yn uwch nag eiddo'r bechgyn, eu bod yn llai hapus yn yr ysgol.

Mae'r data'n awgrymu bod nifer o grwpiau'n wynebu rhwystrau i ddysgu a chyfranogi ym mywyd yr ysgol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, sy'n sôn am newid ysgol a lleoliad sawl tro, a phlant o gefndir Sipsiwn a Theithwyr, sydd weithiau'n teimlo bod gwerthoedd addysg statudol yn gwrthdaro â gwerthoedd eu cymuned. Mae plant anabl hefyd wedi nodi bod materion hygyrchedd yn gallu cyfyngu ar eu profiadau addysgol.

Mae'r gwaharddiadau parhaol yng Nghymru wedi parhau'n gyson ers 2011 ac maen nhw'n is nag yn Lloegr. Serch hynny, mae'r gwaharddiadau cyfnod penodol 5 diwrnod neu lai wedi cynyddu rhywfaint yng Nghymru. Mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim (FSM) bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol.

Rhagolygon: rhai cyfleoedd cadarnhaol

Gwelwyd gwelliant cyson yn y cyflawniadau addysgol ym mhob cyfnod allweddol, ond oherwydd bod y cynnydd hwn wedi digwydd ym mhob grŵp cymdeithasol, mae'r bylchau cyrhaeddiad yn parhau rhwng y gwahanol grwpiau.

Yn sgîl y cwricwlwm newydd, a fydd yn dod yn weithredol o 2022, bydd cyfle i sicrhau profiad dysgu mwy cynhwysol a chreadigol yn yr ysgol, gan gynnwys cyfle i bob plentyn ddysgu am eu hawliau dynol. Fel yn achos unrhyw newid sylweddol o'r math hwn, mae'n dal yn anhysbys a fydd dyheadau'r cwricwlwm newydd yn cael eu cyflawni wrth iddo gael ei weithredu.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru) 2018 yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff eraill i roi sylw dyledus i hawliau plant wrth gyflwyno gwasanaethau i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gan fod yr ystod oed yn ehangach a bod pwyslais ar ddiwallu anghenion unigol, mae cryn gyfle yma i wella profiadau addysgol plant ag anabledau ac anghenion dysgu ychwanegol eraill. Serch hynny, mae pryderon ynghylch a fydd y cyllid a chpasiti'r gweithlu yn ddigonol i ymateb i'r gofynion cynyddol yn sgîl y Ddeddf hon.

Chwarae, y celfyddydau a gweithgareddau hamdden

Mae gwahaniaethau i'w gweld o ran cyfranogiad mewn gweithgareddau chwarae a hamdden yn ôl nifer o nodweddion. Dengys canlyniadau'r arolwg fod bechgyn yn tueddu i fod yn actif yn gorfforol, tra bod merched yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau celfyddydau a diwylliant. Roedd y rhai oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn llai tebygol o chwarae offeryn, cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff oedd ddim yn gystadleuol y tu allan i'r ysgol, a mynychu digwyddiadau ym maes y celfyddydau. Dywedodd plant anabl fod hygyrchedd yn rhwystru gweithgareddau chwarae a hamdden.

Dywedodd dros 44 y cant o'r plant 14 oed yn yr arolwg eu bod yn gwylio'r teledu neu fideos ar y cyfrifiadur am fwy na 3 awr bob dydd yn ystod yr wythnos. Dywedodd ychydig o dan 1 o bob 10 eu bod yn gwneud hynny am fwy na 7 awr. Dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr hefyd eu bod yn defnyddio'r rhyngwyd gartref am fwy na 3 awr y dydd, ac roedd ychydig dros 1 o bob 5 yn ei ddefnyddio am fwy na 7 awr.

Rhagolygon: cymysg

Mae deddfwriaeth Cymru yn adlewyrchu'r hawl i chwarae ar lefel statudol, ac yn gwneud Cymru'n arweinydd rhyngwladol o ran ymrwymiad i chwarae. Bu cynnydd cyson yng nghyfranogiad plant mewn chwaraeon.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Fodd bynnag, mae'r elfennau cadarnhaol hyn o dan fygythiad yn barhaus, ac mae'r pwysau ariannol ar awdurdodau lleol wedi arwain at gau rhai gwasanaethau chwarae, ieuencid a hamdden yng Nghymru. Mae effaith amser sgrîn ar iechyd corfforol ac emosiynol plant hefyd yn bryder sy'n dod i'r amlwg.

Amgylchedd y teulu a gofal amgen

Ym mis Mawrth 2017 roedd 15,930 o blant yn cael gofal a chymorth, gyda 2,135 ohonynt ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a 5,780 yn derbyn gofal. Mae nifer o ganlyniadau iechyd a llesiant negyddol yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal. Mae hynny'n ymwneud yn rhannol ag amllder newid lleoliad. Cafodd 10 y cant o'r plant oedd yn derbyn gofal dri lleoliad neu fwy yn 2016/17. Mae gan Gymru gyfraddau llawer uwch o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o blant na Lloegr. Mae tebygolrwydd bod yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn uwch yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Rhagolygon: gwella, ond gyda heriau pwysig yn parhau

Mae'r heriau pwysig y mae Cymru'n eu hwynebu yn y maes hwn wedi cael eu cydnabod trwy ffurfio Grŵp Cyngori Gweinidogol gweithredol sy'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol, elusennau, swyddogion y llywodraeth ac eraill trwy amrywiaeth o weithgareddau sy'n ceisio lleihau'r niferoedd sydd mewn gofal a gwella profiadau'r rhai sy'n rhan o'r system gofal.

Trais, camdriniaeth ac esgeuluso

Gwelwyd cynnydd mawr yn yr achosion a gofnodwyd o cam-drin ac esgeuluso yn ystod y degawd diwethaf, ond credir bod hynny wedi'i achosi'n bennaf gan well gweithdrefnau adrodd a phlismona ac ymwybyddiaeth gyhoeddus. Mae'r achosion a gofnodwyd yn cynnwys troseddau hanesyddol. O ran y troseddau angheuol yn erbyn plant, mae cyfradd llofruddiaethau plant ar gyfartaledd yn ystod y pum mlynedd hyd at 2016/17 wedi codi rhyw fymryn. Lefel y troseddau rhywiol a gofnodwyd yn erbyn plant o dan 16 oed yw'r uchaf ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig eleni, ond cyfradd y troseddau creulondeb ac esgeuluso a gofnodwyd yng Nghymru yn erbyn plant o dan 16 oed yw'r isaf yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Rhagolygon: cymysg

Mae ataliaeth ac ymyrraeth mewn achosion o esgeuluso a cham-drin yn galw am ddull gweithredu iechyd cyhoeddus cyffredinol i wella rhianta yn ei grynsyth, yn ogystal ag ymyriadau amddiffyn plant uniongyrchol yn wyneb achosion o gam-drin ac esgeuluso. O ran newid diwylliant cyffredinol, mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu sylfaen ar gyfer y newid cymdeithasol hwn ar ffurf newid cyfreithiol a fydd yn dileu amddiffyniad 'cosb resymol', a thrwy hynny roi i blant yr un hawliau ag oedolion mewn achosion o ymosodiad cyffredin, i'w groesawu'n fawr. Dengys canlyniadau'r arolwg fod defnyddio cosb gorfforol yn lleihau yng Nghymru. Mae newidiadau cyfreithiol cymaradwy mewn gwledydd eraill wedi dangos bod modd i hyn gyflymu newid tuag at arferion rhianta mwy cadarnhaol.

Mae'r cynnydd mewn cam-drin rhywiol yng nghyswllt ecsbloetio ar-lein yn ffenomen sy'n destun pryder yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Plant sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid

Mae'r amcangyfrifon swyddogol diweddaraf yn awgrymu bod rhyw 27 o blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yng Nghymru. Mae bwlch mawr yn y data ynghylch plant sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid yng Nghymru, ac mae'r niferoedd sydd yng Nghymru, ond yng nghwmni eu rhieni neu ofalwyr eraill sy'n oedolion, yn anhysbys.

Rhagolygon: anhysbys oherwydd diffyg gwybodaeth a data

Plant yn y system cyfiawnder ieuencid

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sy'n cyflawni dedfryd o garchar yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Fodd bynnag, mae pryderon wedi cael eu codi oherwydd diffyg cyfleusterau i droseddwr ifanc yng Nghymru: mae 45 y cant o'r plant o Gymru sydd yn y ddalfa wedi'u carcharu ar hyn o bryd mewn sefydliadau yn Lloegr, ac mae rhai yn sôn am fwy o unigrwydd ac ynysu o ganlyniad i hynny. Yn ogystal, mae adroddiadau arolygu yn codi pryderon difrifol ynghylch diogelwch plant sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau carcharu. Er bod nifer anghymesur o'r plant sy'n troseddu a gaiff eu dedfrydu yn Lloegr yn ddu, yn Asiaidd, neu o leiafrifoedd ethnig (BAME), yng Nghymru nid yw cyfran y carcharorion BAME sy'n blant ond ryw fymryn yn uwch na'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Rhagolygon: gwella, ond heriau sylweddol

Mae tueddiadau cadarnhaol iawn o ran y gostyngiad yn nifer y plant o dan 18 oed sy'n cael dedfryd o garchar. Mae'r niferoedd yn awgrymu y dylai fod yn bosibl i bawb ohonynt aros yng Nghymru mewn unedau llai sy'n cynnig gwell rhagolygon ailsefydlu. Mae oed cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr, 10 oed, yn isel iawn o gymharu â'r safonau rhyngwladol.

Argaeledd ac ansawdd data

Mae ein hadolygiad o dystiolaeth yn awgrymu bod angen i'r Llywodraeth gasglu mwy o wybodaeth ynghylch rhai rhannau o fywydau plant yng Nghymru er mwyn deall mwy am eu profiadau o gael mynediad i'w hawliau. Mae hyn yn cynnwys amlygrwydd salwch meddwl ymhlith plant a phobl ifanc a gwell dealltwriaeth o sefyllfa plant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches. Mae angen hefyd i ni sicrhau gwell dealltwriaeth o achosion o fwlio mewn ysgolion, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei brofi gan rai sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Dim ond pobl 16+ sy'n cael eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac er bod nifer o arolygon ysgol, ychydig iawn o'r cwestiynau sy'n holi am farn a phrofiadau'r plant, yn hytrach na mesur eu hymddygiad.

Serch hynny, roedd adroddiad â ffocws ar blant a ryddhawyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth: *Llesiant Cymru 2017-18: beth rydyn ni'n ei wybod am lesiant plant?*, er nad oedd yn llenwi'r bylchau hyn yn y data, yn rhoi trosolwg sydd i'w groesawu.

Diweddglo

Ers i Bwyllgor y CU ar hawliau'r plentyn graffu ddiwethaf ar y Deyrnas Unedig yn 2016, cafwyd rhai enillion i blant, fel mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'n glir. Mae hynny'n cynnwys newidiadau i'r gyfraith a pholisi, yn ogystal â phrofiadau newidiol i blant yn achos rhai dangosyddion iechyd ac addysg. Er mwyn adeiladu ar hyn a chyrraedd bywydau holl blant Cymru, dylid estyn y budd a gafwyd o roi pwys cyfreithiol ar ddyletswydd Sylw Dyledus i hawliau plant yn y Ddeddf ADY i bawb sy'n gweithio gyda phlant yn broffesiynol. Dylid rhoi ystyriaeth o ddifri hefyd i ymgorffori CCUHP yn llawn i gyfraith Cymru, fel sydd wedi digwydd yn Norwy a

Sweden, ac sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth yr Alban.

Mae heriau sylweddol yn parhau. Mae fy mhryderon innau'n troi o gwmpas dau faes heriol yn arbennig. Yn gyntaf, yr anghydraddoldeb incwm a chymdeithasol sy'n cael effaith sylweddol ar brofiadau bywyd plant, ac yn ail iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd yr ysgol.

Mae cyni, gan gynnwys grantiau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, ac yn sgîl hynny, i lywodraeth leol, ac effaith newidiadau treth a budd-daliadau yn her sylweddol ar lefel y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu mwyaflu i gyfeiriad mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Dylai gweddill tymor y llywodraeth bresennol ganolbwyntio ar y meysydd hyn er mwyn cyflawni dros blant yn awr, a holl boblogaeth Cymru i'r dyfodol.

Beth Nawr? | What Now?

Fel pencampwr plant, rhaid i'r hyn y bydda i'n codi llais amdano'n gyhoeddus a chyda llunwyr penderfyniadau, a'r pethau y bydda i'n gweithio arny'n nhw ddod o dan ddylanwad yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthyf fi.

Yn dilyn llwyddiant fy Ymgynghoriad Beth Nesa'? I What Next? yn 2016, lle casglwyd barn dros 7000 o blant a phobl ifanc ac oedolion i greu fy nghynllun tair blynedd cyntaf, rwyf am sicrhau bod gan y gwaith y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y tair blynedd sydd ar ôl gen i yn y swydd yr un sylfaen gadarn o dystiolaeth â hanner cyntaf fy nghyfnod fel Comisiynydd.

O 9 Hydref tan 11 Tachwedd 2018 bydd arolygon — ar sail y meysydd allweddol sy'n destun pryder a nodwyd uchod — ar gael i gasglu barn plant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac yn gweithio gyda nhw. Defnyddir y canlyniadau i greu cynllun gwaith tair blynedd ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd, ar sail anghenion gwirioneddol plant a phobl ifanc yng Nghymru.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales